**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**HYSBYSIAD O GYFARFOD I'W GYNNAL YN GYHOEDDUS**

**PWYLLGOR RHANBARTH Y GOGLEDD**

**o 10:00am tan 13:00pm ddydd Gwener 16 Mehefin 2000 yn Neuadd Huw Owen, Prifysgol Bangor, Bangor**

Bydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn trafod sut y caiff arian Amcan 1 ei ddefnyddio yng Ngogledd Cymru.

Dros y saith mlynedd nesaf bydd rhannau mawr o Gymru'n derbyn dros £1 biliwn o raglen Ewropeaidd Amcan 1, i ymdrin â phroblemau economaidd a chymdeithasol. Mae hwn yn gyfle unigryw, ac mae'n rhaid i Gymru fanteisio i'r eithaf arno. Bydd pedair ardal yn y Gogledd yn manteisio'n uniongyrchol o dderbyn yr arian hwn: Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd.

Yn y cyfarfod, bydd swyddogion y Cynulliad yn egluro cefndir Amcan 1 a'r trefniadau gweinyddol sydd wedi eu gosod yn eu lle yn awr. Yn dilyn hyn, bydd trafodaeth â chynrychiolwyr y bartneriaeth leol o bob ardal sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynlluniau a'r prosiectau a fydd yn cael eu cyllido gan y cymorth Ewropeaidd hwn.

Bydd amser ar gael i aelodau o'r cyhoedd wneud cyflwyniad byr neu ofyn cwestiynau am Amcan 1. Os oes diddordeb gennych yn y modd y bydd yr arian hwn yn cael ei wario neu yn y blaenoriaethau ar gyfer ei wario, byddai'r Pwyllgor yn hoffi clywed gennych.

Os hoffech gymryd rhan, anfonwch eich enw, enw unrhyw sefydliad y gallech fod yn ei gynrychioli, a manylion ar gyfer cysylltu â chi at Glerc y Pwyllgor. Caiff yr ymgeiswyr a ddewisir eu hysbysu o hynny erbyn dydd Llun, 12 Mehefin. **Dylid gwneud ceisiadau i roi cyflwyniad yn y Pwyllgor** erbyn **dydd Gwener, 9 Mehefin** naill ai'n ysgrifenedig neu drwy anfon e-bost at:

Adrian Crompton (Clerc) neu Howell Rees (Dirprwy Glerc)
Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler y cyfeiriad isod)
E-bost: nwales.regcomm@wales.gsi.gov.uk

**Os hoffech fynychu'r cyfarfod hwn heb orfod gwneud cyfraniad, cysylltwch ag aelod o'n tîm ar 'Llinell Neilltuo Lle y Cynulliad': (029) 2089 8477.** Rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych.

Am wybodaeth ychwanegol ac i wneud ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'n tîm:

Gwybodaeth ac Addysg Gyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA
Ffôn: "Llinell Gwybodaeth Gyhoeddus y Cynulliad" ar (029) 2089 8200
Ffacs: (029) 2089 8229
E-bost: Assembly.Info@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cymru.gov.uk